

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Ddyngarol Cymru yn Llundain

Crëwyd Cronfa Ddyngarol Cymru yn Llundain yn ysbryd diben craidd sefydliad Cymru yn Llundain, sef i ddarparu pont rhwng Cymru a Llundain - ac yn wir ymhellach i ffwrdd. Mae'n cefnogi myfyrwyr mentrus a phobl ar ddechrau'u gyrfaoedd i gyflawni'u huchelgeisiau.

Er enghraifft, bydd yn talu costau sy'n gysylltiedig â bod yn fyfyrwr, ysgoloriaethau, bwrsariaethau busnes, profiad gwaith/datblygu gyrfa.

Grantiau ar gael

- Gall unigolion ymgeisio am grantiau rhwng £500 a £5,000

Pwy a all ymgeisio?

Pobl ifanc a anwyd ac/neu a addysgwyd yng Nghymru, pobl y bydd ysgoloriaeth/bwrsariaeth yn eu galluogi i ddatblygu'u sgiliau addysg, dysgu, busnes a gyrfa, a bydd yn ehangu'u gorwelion yn Llundain neu y tu allan i Gymru.

Disgwylir y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn addo 'rhoi yn ôl', yn awr neu yn y dyfodol, i Gronfa Ddyngarol Cymru yn Llundain neu yn wir i gymdeithas yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, rhoi cefnogaeth er budd y cyhoedd, rhoddion elusennol, gweithgareddau codi arian, gwirfoddoli, ac yn y blaen, fel mathau o roi dyngarol.

Gellir gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i fynychu ac i gyflwyno yn nigwyddiadau'r Sefydliad Cymunedol neu yn nigwyddiadau Cymru yn Llundain o fewn y flwyddyn ar ôl derbyn cyllid er mwyn diweddarau'r rhoddwyr ar sut mae'r grant wedi cyfrannu at eu datblygiad. Bydd y Sefydliad hefyd yn disgwyl adroddiad monitro, a byddai'n gwerthfawrogi'n fawr cael diweddariadau gan fuddiolwyr fel ein bod yn gallu pwysu a mesur effaith ein grantiau dros y cyfnod hwy.

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais y gellir ei chyrchu drwy wefan.

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n dangos orau sut maent yn diwallu amcanion y Gronfa, ac sy'n dangos orau'r angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn ei fodloni.
- Ni ddyfarnir grantiau'n ôl-weithredol, hynny yw, am gostau a achoswyd eisoes cyn derbyn y llythyr yn cynnig y grant a llofnodi'r telerau a'r amodau.
- Ni ddyfarnir grantiau i unigolion am gostau lle mae cymorth ariannol ar gael fel arall; er enghraifft, lle mae'r ymgeisydd yn gymwys ar gyfer benthygiad i fyfyrwyr.
- Gall unigolion ond ymgeisio i'r gronfa unwaith mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.
- Nid yw ymgeiswyr llwyddiannus yn gymwys i ail-ymgeisio am 5 mlynedd.